Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

21 Chwefror 2024

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o bell trwy-fideo-gynhadledda, Ddydd Mercher, 28 Chwefror 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau

2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

3. I ystyried Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar unrhyw faterion sy'n codi (Tudalennau 3 - 6)

4. I ystyried adroddiad ar bapur trafod ar gyfer ffrydio byw pwyllgorau ychwanegol (Tudalennau 7 - 8)

5. I ystyried adroddiad ar Brotocol Ddrafft ar gyfer Cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau aml-leoliad (Tudalennau 9 - 14)

6. I ystyried adroddiad ar ganfyddiadau arolwg ar gyfleusterau ymchwil (Tudalennau 15 - 18)

7. I ystyried adroddiad ar ddiweddariad ar Raglen Sefydlu Aelodau 2022 a hyfforddiant parhaus (Tudalennau 19 - 26)

8. I ystyried adroddiad ar Lesiant a Diogelwch Personol - Canllaw i Gynghorwyr (Tudalennau 27 - 38)

9. I ystyried eitemau ar y flaenraglen

10. Unrhyw fater arall y penderfyn'ar Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

11. Eitem Agenda Atodol - I ystyried adroddiad ar Ganllawiau Drafft ar gyfer Cadeiryddion / Is-Gadeiryddion ar ohirio, atal neu derfynu cyfarfod ac ar gyfer ystyried eitemau eithriedig

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda ddydd Dydd Mercher, 20 Medi 2023

PRESENNOL: Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd), Cynghorwyr Endaf Edwards, Gwyn James, Gareth Lloyd, Caryl Roberts a Mark Strong.

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Lowri Edwards, Nia Jones, Elin Prysor

(10.00am - 10.47am)

1 Ymddiheuriadau
Dim.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Dim.

3 I ystyried Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac i ystyried unrhyw faterion sy'n codi
PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2023 fel rhai cywir.

Materion yn codi
Gofynnodd Aelodau ynghylch y llinell amser ar gyfer gweithredu cyfarfodydd aml-leoliad, a chadarnhawyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weithgor y Cyfansoddiad yn ddiweddarach y mis hwn, ac yna i'r Cyngor, ac y rhagwelir y bydd yn cael ei weithredu o fis Rhagfyr 2023.

4 I ystyried adroddiad ar newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan nodi bod y gwelliannau'n cael eu cynnig er mwyn adlewyrchu geiriad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar rôl y Pwyllgor.

Nododd yr Aelodau fod y ddeddfwriaeth yn gofyn bod y pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, ond roeddent yn falch bod y canllawiau'n nodi bod Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i anelu at gynnal cyfarfodydd o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.

CYTUNWYD argymell y diwygiadau arfaethedig i'r Cyngor.

5 I ystyried adroddiad ar argymhelliad i gynnal arolwg Cynghorwyr mewn perthynas ag adnoddau ymchwil
Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi bod Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru, yn argymell y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried darparu Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr drwy nodi'r llinell sylfaen o gymorth sydd eisoes ar gael, yna cydweithio gydag aelodau i nodi sut y gellid

datblygu'r gefnogaeth a'i pharamedrau gydag amser. Nid yw hyn yn ofynion statudol, ond mae'r canllawiau'n awgrymu y dylai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 'ystyried' hyn.

Nododd yr Aelodau y gefnogaeth llinell sylfaen bresennol a restrir yn Atodiad A, a'r arolwg Aelodau arfaethedig a gynhwyswyd yn Atodiad B, gan argymhell bod manylion yr hyfforddiant a'r gweithdai a ddarparwyd hefyd yn cael eu cynnwys. Nodwyd hefyd bod hyfforddiant gan Data Cymru ar 'Ddeall a Defnyddio Data' wedi'i drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf, ac y byddai'n bwrpasol cynnal yr arolwg yn dilyn yr hyfforddiant.

CYTUNWYD i ofyn i Swyddogion gynnal arolwg Cynghorwyr mewn perthynas â'r cymorth sylfaenol sydd ar gael i Aelodau ar hyn o bryd ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen.

6 I ystyred adrodddiad ar newidiadau i Gynllun Deisebau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys e-ddeisebau

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan nodi bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi cynllun deisebau, i gynnwys deisebau electronig. Cyflwynwyd Adolygiad ddrafft o Ddogfen O o Gyfansoddiad y Cyngor i'w hystyried.

Gofynnodd yr Aelodau ynghylch rhesymeg cyfnod cynlluniau deiseb, a nodwyd nad yw'r rheoliadau'n nodi amserlen; fodd bynnag, byddai uchafswm o 3 mis yn caniatáu i faterion gael eu hadrodd i'r Cabinet mewn dull amserol.

Gofynnod yr Aelodau hefyd rôl Trosolwg a Chraffu ar dderbyn deisebau. Nodwyd na fyddai pob deiseb yn cwrdd â'r meini prawf i'w hystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu; fodd bynnag, byddai gwybodaeth yn ymwneud â deisebau ar gael ar wefan y Cyngor ac yn cael ei hadrodd ar agenda a chofnodion y Cabinet ac y gallai Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu benderfynu trafod unrhyw faterion sy'n codi sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i'w pwyllgorau.

CYTUNWYD i gyflwyno argymehllion i Weithgor y Cyfansoddiad mewn perthynas â'r argymhellion arfaethedig.

7 I ystyried adroddiad ar Fframwaith Hunan-Asesu arfaethedig CLILC

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r pwyllgor gan nodi bod CLILC yn y broses o ymgynghori ar y Fframwaith Hunanasesu Cymorth a Datblygu Aelodau drafft i ddisodli'r Siarter bresennol.

Nododd yr Aelodau eu bod yn hyderus bod Cyngor Sir Ceredigion yn bodloni'r mwyafrif o'r gofynion fel y nodir yn y fframwaith hunanasesu, ac nad oeddent yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i'r ddogfen ddrafft.

8 Trafodaeth ar adolygu gwe-ddarlledu byw cyfarfodydd ychwanegol

Arweiniodd y Cynghorydd Gareth Lloyd drafodaeth ar gynyddu nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu recordio, neu eu ffrydio'n fyw gan eu bod yn darparu

cofnod hanesyddol pwysig, ac yn rhoi cyfle i ystyriaethau gael eu hadolygu yn ddiweddarach.

Nododd Swyddogion fod cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet yn cael eu ffrydio ar hyn o bryd ar dudalennau Facebook y Cyngor a'u bod ar gael fel recordiadau.

Fodd bynnag, nodwyd bod cefnogi ffrydio cyfarfodydd byw yn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau ar hyn o bryd. Unwaith y bydd problemau parhaus gyda'r system hybrid wedi'u datrys, mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu trosglwyddo ffrydio byw o Facebook i ddolen a ddarperir ar wefan y Cyngor drwy'r system rheoli cyfarfodydd Modern.gov. Byddai angen treialu'r system cyn ei gweithredu'n llawn; fodd bynnag, byddai'n caniatáu trosglwyddo rheolaeth dechnegol cyfarfodydd o TGCh i Wasanaethau Democrataidd, gyda'r nod o gynyddu nifer y cyfarfodydd sydd ar gael i'w gweld trwy wefan y Cyngor yn raddol.

Nodwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 8 Rhagfyr 2023 yn amlinellu'r datblygiadau arfaethedig. Nododd yr Aelodau fod blaenoriaethau o ran ehangu'r trefniadau presennol i gynnwys y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a Throsolwg a Chraffu.

9 I ystyried eitemau ar y flaenraglen

a) Recordio / ffrydio byw pwyllgorau ychwanegol;
b) Canllawiau ar gyfer wardiau aml-aelod;
c) Protocol Lles a Diogelwch Personol Cynghorwyr.

10 Unrhyw fater arall y penderfyn'ar Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar Dydd Gwener, 8 Rhagfyr 2023

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Dyddiad: **28.02.2024**

Teitl: **Papur Trafod ar gyfer ffrydio byw pwyllgorau ychwanegol**

Pwrpas yr adroddiad: **I ystyried y papur trafod**

Cefndir
Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn darlledu'r gweithgareddau pob cyfarfod o'r Cyngor a'r Cabinet. Mae hyn yn fwy na gofynion presennol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor. Darlledir y cyfarfodydd hyn trwy wefannau Facebook y Cyngor, sydd yn ddwys iawn o ran adnoddau gan ei bod yn ofynnol i swyddog TGCh fynychu pob cyfarfod o bell er mwyn hwyluso'r ffrydio byw i safle Facebook Cyngor Sir Ceredigion (sy'n darparu darllediad gyda chyfieithu) ac i safle Facebook Cyngor Sir Ceredigion (a ddarlledir heb gyfieithu).

Ym mis Hydref 2023, cynhaliodd Swyddogion TGCh a Gwasanaethau Democrataidd brofion i brosesau ffrydio byw y system rheoli cyfarfodydd hybrid i sicrhau ei bod yn gallu bodloni'r gofynion ar gyfer darlledu cyn i'r system fynd yn fyw. Roedd y profion yn llwyddiannus, fodd bynnag mae angen 'chydig a ddatblygu pellach gan y gwasanaeth TGCh er mwyn sicrhau fod y broses o rannu cyflwyniadau yn gweithio'n iawn. Unwaith bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, fe fydd Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn gallu rheoli'r ffrydio heb fod angen am gymorth gan Swyddogion TGCh. Fe fydd hyn yn ei dro yn galluogi cyfleoedd i gynyddu'r nifer o gyfarfodydd sy'n cael eu darlledu'n fyw ac sydd ar gael am gyfnod penodol ar ôl y cyfarfod, heb fod angen i Swyddog TGCh fod yn bresennol.

Yn ystod ei gyfarfod dyddiedig 20 Medi 2023, gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyriaeth o ran ffrydio byw pwyllgorau ychwanegol gael ei gynnwys ar y blaenraglen waith. Mae'r papur hwn wedi'i ddrafftio i annog trafodaeth gan Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch y flaenoriaeth a'r amserlen ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth hon fesul cam.

Mae'r adborth a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yn argymell bod y Swyddog Monitro neu ei Ddirprwy yn bresennol ym mhob cyfarfod sy'n cael ei ddarlledu. Felly rhoddwyd ystyriaeth i gapasiti'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy i fynychu cyfarfodydd ac mae'r argymhellion yn adlewyrchu hyn.

Amserlen a argymhellir ar gyfer darlledu ychwanegol

Cyngor	Darpariaeth ddarlledu eisoes yn ei le
Cabinet	Darpariaeth ddarlledu eisoes yn ei le
Pwyllgor Rheoli Datblygu	Dechrau darlledu o fis Mai 2024

Argymhellion:
I Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried, a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch ymestyn y darlledu i gynnwys cyfarfodydd pwyllgor ychwanegol.

Atodiadau:

Dogfennau cefndir:
Canllawiau statudol ac anstatudol ar gyfer Prif Gyngor Cymru

Enw:
Lowri Edwards

Teitl Swydd:
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad:
29.12.2023

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Dyddiad: **28.02.2024**

Teitl: **Protocol Drafft ar gyfer Cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau aml-aelod**

Pwrpas yr adroddiad: **Ystyried y protocol drafft**

Cefndir
Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru yn nodi, os caiff swyddogaethau eu dirprwyo i Gynghorwyr o fewn yr un ward, efallai y bydd cynghorau'n dymuno cynhyrchu canllawiau a chymorth gyda'r nod o sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn wardiau yn cael eu cydlynu a'u cydategu gan wella canlyniadau i bobl leol.

Nod y Protocol Drafft yw gosod canllawiau a phrotocolau clir i Gynghorwyr a thrigolion yr effeithir arnynt mewn Wardiau Aml-Aelod er mwyn osgoi unrhyw ddryswch a dyblygu ymdrech.

Nodir fodd bynnag fod y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Gweithdrefnau Gweithredol (Rhan 4 Dogfen I) yn nodi:

Bydd y rhai sy'n siarad yn cael hyd at 5 munud yr un i siarad.
Mae hyn yn cynnwys:
- *Ymgeisydd/Asiant*
- *Gwrthwynebydd*
- *Cynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned*
- *Aelod ward lleol*

Felly, cynigir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell bod Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ystyried drwy weithdy, p'un a yw'r 5 munud a ganiateir ar gyfer Aelodau Ward Lleol yn cael eu rhannu, neu 5 munud yr un.

Argymhellion:
a) **I gymeradwyo'r Protocol Drafft ar gyfer Cynghorwyr sy'n Cynrychioli Wardiau Aml-Aelod i'w ddosbarthu i'r holl gynghorwyr**
b) **I argymell bod Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ystyried geiriad y Pwyllgor Rheoli Datblygu – Gweithdrefnau Gweithredol, Rhan 4 Dogfen I**

Atodiadau:
Dim

Dogfennau cefndir:
Canllawiau statudol ac anstatudol ar gyfer Prif Gyngor Cymru

Enw:
Lowri Edwards

Teitl Swydd:
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: 22.01.2024

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Protocol ar gyfer Cynghorwyr sy'n cynrychioli wardiau aml-aelod

Ebrill 2023

Cyflwyniad
Mae Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru yn nodi, os caiff swyddogaethau eu dirprwyo i gynghorwyr o fewn yr un ward, efallai y bydd cynghorau'n dymuno llunio canllawiau a chymorth gyda'r nod o sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn wardiau yn cael eu cydlynu a'u cydategu gan wella canlyniadau i bobl leol.

Wardiau Aml-Aelod Ceredigion
Ar hyn o bryd mae 34 ward etholiadol yng Ngheredigion, a gynrychiolir gan 38 o gynghorwyr. Cynrychiolir y wardiau canlynol gan ddau Gynghorydd:

- Aber-porth a'r Ferwig
- Aberystwyth Morfa a Glais
- Aberystwyth Penparcau
- Beulah a Llangoedmor

Cydweithio rhwng cynghorwyr sy'n cynrychioli'r un ward
Gall y rhai sy'n cynrychioli Wardiau Aml-Aelod fod o'r un grŵp neu grŵp gwahanol; Fodd bynnag, mae gan bob aelod etholedig yr un statws o ran cynrychioli eu wardiau, ac ni ddylai aelodau ddisgrifio eu hunain fel yr unig gynrychiolydd ar gyfer y ward honno.

Mae gan etholwr yr hawl i fynd at y naill aelod, neu'r ddau aelod etholedig sy'n cynrychioli eu ward, ac efallai y bydd amgylchiadau lle gall Aelodau benderfynu gweithio gyda'i gilydd wrth ymgyrchu neu lobïo ar faterion sy'n benodol i'r ward, i rannu syniadau neu bryderon ynghylch materion ac i gyflwyno dull unedig i'r cyhoedd. Efallai y byddant hefyd yn penderfynu rhannu'r llwyth gwaith, a darparu elfen o fentora ar gyfer Aelodau sydd newydd eu hethol. Gellir gwneud hyn yn anffurfiol trwy gyfarfodydd neu sgyrsiau rheolaidd. Gall leihau'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrech hefyd, yn enwedig lle cyfeirir un mater i sylw Gwasanaeth o'r Cyngor ddwywaith. Efallai y bydd Aelodau wardiau aml-Aelod yn dymuno cyfeirio achosion at ei gilydd os oes gwrthdaro buddiannau, neu i gyfro ei gilydd yn ystod absenoldebau fel gwyliau neu salwch.

Gall fod amgylchiadau lle nad yw'r Aelodau'n medru cydweithio ar faterion penodol oherwydd gwahaniaethau gwleidyddol; fodd bynnag, efallai yr hoffent gysylltu â'i gilydd fel mater o gwrteisi wrth ddelio â materion lleol mawr.

Deddfwriaeth sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth bersonol
Dylai Aelodau fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth. Mae dogfen 'Cyngor i gynghorwyr etholedig a darpar gynghorwyr: Deddf Diogelu Data' Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi:

Dim ond gwybodaeth bersonol <u>angenrheidiol</u> y caniateir i'r Cynghorydd ddatgelu i'r cynghorydd arall i'w (g)alluogi i :

- *fynd i'r afael â phryderon y preswylydd;*
- *Lle mae'r mater penodol yn tynnu sylw at fater sy'n ymwneud ag aelodau etholedig eraill yn yr un ward; neu*

- *Lle mae'r preswylydd wedi cael gwybod bod hyn yn mynd i ddigwydd a pham fod angen gwneud hynny.*

Os yw'r preswylydd yn gwrthwynebu defnyddio neu ddatgelu ei wybodaeth, dylid anrhydeddu ei wrthwynebiad fel arfer.
Ni ddylai'r cynghorydd drosglwyddo gwybodaeth bersonol nad yw'n gysylltiedig ag achos y preswylydd.
https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/The%2BGeneral%2BProtection%2BData%2BRegulation%2B%28GDPR%29%2B-%2BGuidance%2Bfor%2BMembers.pdf

Ystyriaethau ynghylch pa Aelod sy'n arwain ar unrhyw fater
O bryd i'w gilydd, efallai y bydd amgylchiadau lle bydd yn rhaid gwneud penderfyniad ynghylch pa un o'r ddau aelod lleol sy'n arwain ar fater penodol, megis cynrychiolydd ar gorff llywodraethu ysgol, neu gorff allanol lleol arall.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn wedi'i bennu ymlaen llaw o ganlyniad i aelod o'r cyhoedd neu sefydliad gysylltu â'r Aelod o'u dewis; Fodd bynnag, lle nad yw hyn wedi'i bennu ymlaen llaw, dylai aelodau etholedig o fewn ward benodol gytuno ymysg ei gilydd i ddyrannu cyfrifoldebau o'r fath mewn modd teg a chyfartal ac ar sail y pwnc a diddordeb neu arbenigedd.

Cyfathrebu gan Swyddogion y Cyngor
Mae gan unrhyw gynghorydd hawl i gymryd diddordeb mewn neu ymdrin â mater sy'n effeithio ar ei ward, ac felly bydd Swyddogion yn anfon copïau o'r holl ohebiaeth gyffredinol sy'n ymwneud â'r Ward honno at y ddau Aelod, ac yn gwahodd y ddau Aelod i unrhyw gyfarfodydd a drefnir i drafod materion ward cyffredinol.

Bydd hyn yn cynnwys eitemau, ond nid yw'n gyfyngedig i:

a) Ystyried ceisiadau a dderbyniwyd am ddefnydd amgen dros dro neu rannol o feysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol a'r Aelod Cabinet (ac eithrio ceisiadau i gau maes parcio "Talu ac Arddangos") yn llwyr: *Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion Rhan 3.5F;*
b) Rhestr fer o geisiadau ar gyfer ffermydd a hysbysebir, gosod a rhoi Hysbysiadau terfyn mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol a'r Aelod Cabinet: *Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion Rhan 3.5H;*
c) Hysbysiad o ddeisebau: *Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion Rhan 5, Dogfen O;*
d) Cynrychiolaeth ym Mhwyllgor Defnyddwyr Harbwr Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd: *Cyfansoddiad Rhan 7 Cyngor Sir Ceredigion.*

Pan fo Aelod wedi bod ynghlwm â mater preifat sy'n effeithio ar breswylydd neu aelwyd unigol, fe fydd Swyddogion yn hysbysu'r Aelod hynny'n unig, oni bai bod y preswylydd wedi rhoi caniatâd i'r wybodaeth gael ei rhannu â'r ddau.

Darperir manylion cyswllt yr holl gynghorwyr ar wefan Cyngor Sir Ceredigion, a bydd aelodau'r cyhoedd sy'n gofyn am fanylion eu cynrychiolydd lleol yn cael manylion cyswllt ar gyfer y ddau Aelod yn nhrefn yr wyddor trwy gyfenw yn unol â'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Dyddiad: **28.02.2024**

Teitl: **Adroddiad ar ganfyddiadau arolwg ar gyfleusterau ymchwil**

Pwrpas yr adroddiad: **Ystyried canfyddiadau'r arolwg**

Cefndir
Yn ystod ei gyfarfod dyddiedig 20 Medi 2023, dirprwyodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyfrifoldeb i Swyddogion gynnal arolwg Cynghorwyr ar y cymorth sylfaenol sydd ar gael i'r Aelodau ar hyn o bryd. Cytunwyd ar ôl cwblhau'r arolwg hwn, y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i adolygu canfyddiadau'r arolwg.

Y nod o gynnal yr arolwg hwn oedd adlewyrchu argymhelliad *Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru ,*i ystyried gofynion Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil Cynghorwyr fel rhan o'i ystyriaethau ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr ag adnoddau digonol i alluogi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gyflawni ei swyddogaethau. Roedd y canllawiau yn rhagweld y bydd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfeirio aelodau unigol at ffynonellau gwybodaeth presennol neu hyfforddiant sydd ar gael, yn ogystal â sesiynau briffio cyn cyfarfod a chymorth wedi'i dargedu er enghraifft wrth arwain ar ymchwiliad gorchwyl a gorffen, neu mewn ymateb i alwad am weithredu. Dylid nodi nad yw'r canllawiau'n dweud fod hyn yn ofyniad statudol, ond mae'n awgrymu y dylai'r pwyllgor 'ystyried' hyn.

Anfonwyd arolwg at yr holl Aelodau ar 8 Tachwedd 2023 yn seiliedig ar gwestiynau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ynghyd â manylion llinell sylfaen o gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i Aelodau a rhestr o'r holl hyfforddiant a ddarparwyd ers mis Mai 2022.

Hyd yn hyn, cafwyd 6 ymateb i'r arolwg, fel a ganlyn:

Cwestiwn 1: Ar ôl ystyried y gefnogaeth sylfaenol i'r Aelodau a nodwyd ar hyn o bryd, a oes unrhyw feysydd cymorth eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y rhestr hon?

Atebion:
a) *Dim ar hyn o bryd*
b) *Cefnogaeth a chyngor cyfreithiol annibynnol. Cefnogaeth swyddog penodol i edrych ar ôl Cynghorwyr sy'n lled-annibynnol*
c) *Rwy'n credu y dylem gael cwrs iaith arwyddion sylfaenol (BSL)*
d) *Na, mae'r rhestr yn eithaf helaeth ac eang o ran ei harddull*

e) *Ar ôl darllen y ddogfen amlinellol gymorth a ddarperir ar yr e-bost gwreiddiol, mae'n ymddangos bod maint y gefnogaeth i aelodau'n ddigonol ac yn cwmpasu ystod eang o feysydd*

Cwestiwn 2: Pa gefnogaeth sydd wedi bod yn ddefnyddiol yn eich rôl fel Cynghorydd?

Atebion:

a) *Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol*
b) *Sesiynau hyfforddi*
c) *Offer TG*
d) *Clic System*
e) *Ceri net*
f) *Rydym yn derbyn llawer o gefnogaeth gan ein cyngor*
g) *Diogelu data, diogelu, hyfforddiant trwyddedu. Rheoli Datblygu. Gellid darparu mwy o hyfforddiant TG a sut i ymchwilio gwybodaeth sydd eisoes ar gael*
h) *Mae pob math o hyfforddiant ac ati wedi bod yn ddefnyddiol, mae cael unigolyn/swyddog yn cyflwyno'r wybodaeth bob tro yn hwyluso'r broses*
i) *Rwyf wedi derbyn cyfoeth o gefnogaeth fel cynghorydd newydd, o TGCh i agendâu cyfarfodydd a gwybodaeth ychwanegol y byddwn yn ei chael hi'n anodd cael gafael arno heb y cyfathrebu uniongyrchol hwn.*

Cwestiwn 3: Beth ellid ei wella?

Atebion:

a) *Ambell gyfarfod wyneb i wyneb - ond dim fel norm, dim ond er mwyn cael ehangu sgyrsiau*
b) *Adroddiadau Clic er mwyn gweld heriau ehangach*
c) *System CRM Symology adran priffyrdd ac ystadau i siarad gyda Clic.*
d) *Ni allaf feddwl am unrhyw beth, rydym yn cael llawer o hyfforddiant a chefnogaeth*
e) *Hapus gyda'r ddarpariaeth sydd yn ei le*
f) *Methu meddwl am llawer. O ran yr holl modulau ayb sydd ar gael i ni neud fel cynghorwyr ar lein, efallai bydde werth cael ambell sesiwn ble byddai modd rhoi cyflwyniad/briefing bach (5 i 10 munud) ar bob module a edrych i drafod 6-10 bydde yn para rhyw awr a hanner fel anogaeth, codi diddordeb aelodau i neud fwy o fodulau.*
g) *Dim byd y gallaf ei weld*

Cwestiwn 4: Pa wybodaeth / data sydd ei angen arnoch nad yw ar gael ar wefan y Cyngor ar hyn o bryd neu adroddiadau a ddarperir i bwyllgorau?

Atebion:

a) *Adroddiadau CLIC er mwyn gweld yr heriau mwyaf i'r cyngor*
b) *Dim allai feddwl amdano*
c) *Dim*
d) *Hapus gyda'r ddarpariaeth bresennol*
e) *Methu meddwl am dim ar hyn o bryd. Hapus bod modd codi unrhyw bwnc/data at sylw swyddogion os oes rhywbeth yn codi y y dyfodol.*

f) *Rwy'n dal i archwilio'r wefan. Mae'n ymddangos yn ddigonol i'r cyhoedd ac i aelodau, fodd bynnag, mae'n anodd iawn arwain pobl at wasanaethau gwybodaeth, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau'r trydydd sector. Nid yw hyn yn fai ar y wefan, gan fod y wybodaeth eisoes yno. Y mater yw hyrwyddo mewn ffyrdd eraill h.y. o fewn y cymunedau gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol unigolion, posteri ac ar lafar*

Cwestiwn 5: Pa wybodaeth / data sydd ei angen arnoch nad yw ar gael ar hyn o bryd drwy ddarparwyr allanol fel Data Cymru, CLILC ac ati

Atebion:

a) *Dim ar hyn o bryd*
b) *Byddai'n ddefnyddiol gwybod mwy am asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor ym mhob gwasanaeth*
c) *Dim*
d) *Gallai fod yn ddefnyddiol i gael data ar wasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr y sector cyhoeddus e.e. Iechyd, yr Heddlu, Tân ac Achub, gwasanaeth ambiwlans Cymru. Gan ein bod mewn ardal amaethyddol gref, data ar faterion ffermio cyffredinol, data twristiaeth yn yr un modd.*
e) *Fel uchod. Hapus bod modd tynu sylw swyddogion at unrhyw wybodaeth/data sydd angen fel mae rhywbeth yn codi, cael eu drafod.*

Cwestiwn 6: Rhestrwch unrhyw feysydd ymchwil a allai fod yn ddefnyddiol i'ch rôl fel Cynghorydd, lle nad yw'r wybodaeth hon eisoes ar gael yn gyhoeddus.

Atebion:

a) *Adroddiadau am unrhyw peth newydd yn dod allan am wardiau o safleuoedd we yr ONS falle? Lefel meicro ac yn sirol er mwyn deall y pictwr gyflawn.*
b) *Dim*
c) *Gan gyfeirio at ymateb blaenorol, mae'n ddigon posibl y byddai ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd ond byddai'n wych cael yr holl ddeunydd cyhoeddus wedi'i gynnwys mewn un ddogfen / Ffolder*
d) *Dim ar hyn o bryd*
e) *Un enghraifft fyddai data ar gyfer pynciau fel llif traffig drwy wardiau yn ymwneud â materion parcio a datrysiadau posib. Mae'n bosibl iawn bod data ar gael eisoes ond efallai y byddai potensial i greu porth aelodau/swyddogion ar gyfer ystadegau ar faterion sylfaenol y gellir eu cyrchu a'u deall yn hawdd*

Argymhellion:
I nodi'r adroddiad

Atodiadau:
Dim

Dogfennau cefndir:
Canllawiau statudol a di-statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru;
Deddf Llywodraeth Leol 2000;
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Enw:
Lowri Edwards

Teitl Swydd:
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad:
29.12.2023

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

Dyddiad: **28.02.2024**

Teitl: **Rhaglen Sefydlu Aelodau**

Pwrpas yr adroddiad: **Ystyried diweddariad ar Raglen Sefydlu Aelodau 2022 a hyfforddiant parhaus**

Cefndir
Dechreuodd y Rhaglen Sefydlu Aelodau ar 9 Mai 2022 yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022.

Roedd y Rhaglen sefydlu yn cynnwys cyfanswm o 71 o weithgareddau datblygu, a oedd yn gyfanswm o 86 o sesiynau hyfforddi unigol ar ôl cynnwys sesiynau ailadrodd. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys hyfforddiant cyffredinol i'r holl Aelodau, hyfforddiant gorfodol wedi'i dargedu ar gyfer Aelodau pwyllgorau statudol a gweithdai addysgiadol gyda'r nod o roi'r hyfforddiant a'r wybodaeth briodol i Gynghorwyr i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Tra bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyfforddi ddim yn orfodol, argymhellir fod pob Cynghorydd / Aelodau Pwyllgorau ym mynychu'r gweithgareddau hyfforddiant canlynol:

Cod Ymddygiad	100% presenoldeb
Rol a Dyletswyddau Aelodau Cabinet	100% presenoldeb
Rol a Dyletswyddau Aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonnau	100% presenoldeb
Rol a Dyletswyddau Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu	100% presenoldeb
Rol a Dyletswyddau Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	100% presenoldeb
Rol a Dyletswyddau Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol	100% presenoldeb
Rol a Dyletswyddau Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu	100% presenoldeb
Rol a Dyletswyddau Aelodau'r Pwyllgorau Trwyddedi	100% presenoldeb
Protocolau Moeseg a Safonnau	100% presenoldeb
Gwybodaeth a Diogelu Data*	82% presenoldeb

*Darparwyd hyfforddiant Gwybodaetha Rheoli Data ar 3 achlysur ar wahân, ac fe fydd yn cael ei ail-adrodd ar gyfer Aelodau newydd a'r rhai nad oeddent wedi medru mynychu'r sesiynau hyfforddiant gwreiddiol. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael eu ail-redeg yn dilyn ad-drefniant aelodaeth pwyllgorau ym mis Mai 2024.

Fe fydd hyfforddiant ychwanegol a gweithdai yn cael eu cynnal yn gynnar yn y flwyddyn newydd i gynnwys:

- Rheoli Risg
- Gweithdy Datblygiadau Digidol

- Datblygiadau o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Gweithdai misol rheoli Datblygu

Cyflawnwyd y gweithgareddau a restrir yn yr atodliad yn ystod y cyfnod rhwng 10 Mai 2022 a diwedd mis Ionawr 2024. Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn fewnol gan swyddogion y cyngor. Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant o bell drwy zoom. Ceir dadansoddiad o bresenoldeb pob sesiwn yn Atodiad A.

I ategu'r sesiynau hyfforddi ffurfiol a roddwyd, mae gan Gynghorwyr afael ar raglenni e-ddysgu nad ydynt yn orfodol. Rhoddir sampl o'r rhaglenni e-ddysgu sydd ar gael a'r cyfraddau cwblhau yn Atodiad B.

Cynhelir sesiynau un-i-un gyda'r holl Aelodau yn gynnar y flwyddyn nesaf i nodi gofynion hyfforddi ychwanegol.

Argymhelliad:	Nodi'r adroddiad
Atodiadau:	Atodiad A – gweithgareddau hyfforddi ffurfiol Atodiad B – rhaglenni e-ddysgu
Dogfennau cefndir:	Dim
Enw:	Lowri Edwards
Teitl y Swydd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	28.12.2023

DYDDIAD	SESIYNAU HYFFORDDI	MEWNOL ALLANOL	CYFANSWM PRESENOLDEB	% PRESENOLDEB AELODAU PRESENOL
09.05.22 19.05.22 24.06.22 10.10.22 06.01.23 24.07.23 20.11.23	Cod Ymddygiad	Mewnol	41*	100%
18.05.23	Sesiwn Atgoffa Cod Ymddygiad	Mewnol	20	53%
10.05.22	Cyflwyniad i'r Cyngor	Mewnol	30*	79%
10.05.22 11.10.22 29.09.23	Diogelu Gwybodaeth a Data	Mewnol	31*	82%
23.05.22	Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau Cabinet gan gynnwys gwneud penderfyniadau yn effeithiol	Mewnol	8	100%
24.05.22	Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau	Mewnol	2	100%
27.05.22 22.11.22 02.08.23 21.11.23	Hyfforddiant Pwyllgor Rheoli Datblygu (agored i bob Cynghorydd) Mae'r 15 Aelod presennol o'r Pwyllgor wedi cwblhau'r hyfforddiant	Mewnol	35*	100%
31.05.22 11.10.22	Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Mewnol	7*	100%
06.06.22	Rôl a Chyfrifoldebau Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol	Mewnol	6	100%
08.06.22 16.10.23 23.11.23	Rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu	Mewnol	27*	89%
09.06.22	Cadeirio Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu (agored i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion)	Mewnol	7	70%
09.06.22	Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus	Mewnol	7	70%
10.06.22	Safonau'r Gymraeg	Mewnol	26*	68%

14.06.22	Cyflwyniad i e-ddysgu	Mewnol	25*	66%
